

# Tlodi a thrachwant: mellith y farchnad rydd

**Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dadlau pam fod annhegwch o ran cyfoeth yn dinistrio'r amgylchedd hefyd ...**

UN o ganlyniadau mwya' trawiadol a brawychus gwaith treiddgar [J.K.] Galbraith ydi'r gydnabyddiaeth o'n dibyniaeth ni ar y 'fargen fawr' - y ddêl rhyngon ni, y cyhoedd, busnes a diwydiant a'n llywodraethau - y fargen sy'n cadw olwyn tyfiant economaidd yn troi. Mae hynny, hefyd, yn dibynnu ar stôr diwaelod o adnoddau naturiol.

Rydyn ni i gyd yn rhan o'r fargen ac yn dioddef pan fydd pethau'n mynd o'i le, fel y gwnaethon nhw yng nghwmp 2007-8, ac fel y maen nhw'n dal i'n llethu.

Rhybuddiodd Galbraith am ansefydlogrwydd y fargen am y drefn gyfalafol a'i thuedd i orymestyn, i ganoli asedau, arian, grym a dylanwad mewn ychydig ddwylo ac i sugno cyfoeth i ganolfannau dethol. A dyma sydd wedi digwydd.

Ers y 1970au, mae yna ddigonedd o dystiolaeth yn ystadegau'r Llywodraeth yn Llundain i gadarnhau hyn.

## **HAWS GODDEF ANGHYFARTALEDD — OS OES GOBAITH**

Un mesur rhyngwladol o anghyfartaledd yw 'Gini coefficient'. Fe gododd hwn yn gyflym yn ystod teyrnasiad Thatcher ac yn llai cyflym ers hynny.

Rydan ni i gyd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng ffyniant Llundain a chyflogau anhygoel y Ddinas, ar un llaw, a'n cyflwr ninnau ar y llall, nid yn unig yng Nghymru ond mewn ardaloedd eang eraill o Brydain. Mae gwerth tai yn adlewyrchiad teg o'r gagendor.

Beth yw perthynas hyn a chynaliadwyedd?

Yn gyntaf, mae'n haws goddef anghyfartaledd os ydan ni'n gobeithio y daw haul ar fryn maes o law, i ni yn bersonol neu i'n teuluoedd.

Dyna yn y bôn oedd athroniaeth Thatcher a Reagan. Roedden nhw'n credu y byddai llwyddiant a disgyblaeth y farchnad rydd a llewyrch busnes ac entrepreneuriaid yn creu swyddi da a golud i'r mwyafrif yn y pen draw. Ond wireddwyd mo'u breuddwyd.

Mae twf economaidd, o ran cynnyrch economaidd (GDP) y pen, yn llai ers 1980 nag yr oedd yn y 1960au a'r 1970au.

Manteisiodd y 10% mwya' cyfoethog ac, yn fwy trawiadol, yr 1% mwya' goludog ar y sefyllfa i sicrhau asedau dihybydd iddyn nhw eu hunain. Prin bod safon byw y canrannau tlota' wedi newid am ddegawdau.

Yn yr Unol Daleithiau mae hyd yn oed y dosbarth canol wedi mynd yn dlotach - os ydach chi eisio gweld y dystiolaeth, edrychwch ar fideo sydd fan hyn: [www.occupy.com/article/viral-video-wealth-inequality-america](http://www.occupy.com/article/viral-video-wealth-inequality-america).

Yn ogystal, mae unigolion a chwmnïau rhyngwladol, er enghraifft Amazon, Google, nPower a Starbucks, wedi trefnu bod eu hasedau yn saff mewn hafanau treth allan o afael ein llywodraethau.

## **BETH OS YW BARGEN GALBRAITH YN CHWALU?**

Bu raid i'r wlad hefyd ysgwyddo swm anferth o ddyled i sefydlogi'r banciau a'r marchnadoedd arian. Dim syndod fod pobol yn anniddig a drwgdybus.

Mae hyn oll yn do'i hun yn ddigon o broblem. Ond beth os ydan ni'n rhagweld rhwystrau amgylcheddol i dwf confensiynol di-dor? Beth os yw borgen Galbraith, sydd wedi ein cynnal, yn chwalu.

Beth os bydd rhaid talu am ddadgarboneiddio ein cyflenwadau ynni? Pwy fydd yn talu pan fydd lefel y môr yn codi metr neu ddwy a chyflenwadau bwyd yn prinhaus?

Mewn sefyllfa fel hyn, mae anghyfartaledd yn llawer mwy o fwgan. A fydd pobol yn bodloni ar dlodi ynghanol trachwant yr ychydig?

Mae cyfoeth, fel erioed, yn prynu grym a dylanwad, yn sicrhau sylw yn y wasg, yn dylanwadu ar lywodraethau ac yn gosod agenda sydd yn amddiffyn buddiannau'r trachwantus.

Yn baradocsaidd, mae'r dirwasgiad yn cryfhau dylanwad yr ariannog gan fod llywodraethau'n cystadlu i gynnig telerau hael i ddenu buddsoddwr i'w hardal er mewn cynnal borgen Galbraith.

Dim syndod, felly, bod diwydiannau olew a glo'r Unol Daleithiau'n talu am y rhai sy'n gwrthwynebu'r dystiolaeth am newid hinsawdd a bod rhai'r asgell dde nid yn unig yn gwadu newid hinsawdd, ond yn cymharu cynaliadwyedd efo sosialaeth neu Farsiaeth rhonc ac efo ymdrech i danseilio rhyddid yr unigolyn.

**[9 Mai , 2013]**